Estyn

Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru

## Adroddiad ar ansawdd addysg bellach

**yng**

**Ngholeg Elidyr**
**Rhandirmwyn**
**Llanymddyfri**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA20 0NL**

**Dyddiad yr Arolygiad: Rhagfyr 2009**

**gan Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2010**

Ofsted

raising standards improving lives

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol (GAALl);
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

# Cyflwyniad

Arolygwyd Coleg Elidyr fel rhan o raglen genedlaethol chwe blynedd (2003-2009) o arolygiadau o'r holl ddarparwyr ôl-16 yng Nghymru. Diben y rhaglen yw nodi nodweddion da a diffygion er mwyn i'r coleg allu gwella ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr. Mae arolygu hefyd wedi'i gynllunio i roi mwy o wybodaeth i ddysgwyr am ansawdd darparwyr addysg bellach.

Mae pob arolygiad a gynhelir o dan y trefniadau yn cymhwyso'r egwyddorion canlynol:

- defnyddio fframwaith arolygu sy'n gyffredin i bob sector addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- pwyslais ar hunanarfarniad y coleg o'i waith;
- cyfranogiad enwebai'r darparwr sy'n gweithio gyda'r tîm arolygu; ac
- arolygu sampl o ddarpariaeth.

Cynhaliwyd yr arolygiad rhwng 1 Rhagfyr 2009 a 3 Rhagfyr 2009 gan dîm a gafodd ei arwain gan Arolygwyr Ei Mawrhydi o Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gan fod y coleg yn cael arian gan y Cyngor Dysgu a Sgiliau yn Lloegr, roedd y tîm yn cynnwys Arolygydd Ei Mawrhydi o Ofsted.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth, a barnu a yw'r coleg yn darparu gwerth am arian.

**Esboniad o eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir i ddisgrifio ein harfarniadau**

Y geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y golofn ar yr ochr chwith yw'r rhai yr ydym yn eu defnyddio i ddisgrifio ein harfarniadau. Yr ymadroddion yn y golofn ar yr ochr dde yw'r esboniadau mwy manwl gywir.

| | |
|---|---|
| **Bron pob un** | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| **Y rhan fwyaf** | 90% neu fwy |
| **Llawer** | 70% neu fwy |
| **Mwyafrif** | dros 60% |
| **Hanner/tua hanner** | yn agos at 50% |
| **Lleiafrif** | islaw 40% |
| **Rhai** | islaw 20% |
| **Ychydig iawn** | llai na 10% |

**Disgrifiadau gradd**

Mae'r raddfa bum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Gradd 1** | da gyda nodweddion rhagorol |
| **Gradd 2** | nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| **Gradd 3** | nodweddion da yn gorbwyso diffygion |
| **Gradd 4** | rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| **Gradd 5** | llawer o ddiffygion pwysig |

Mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r coleg baratoi datganiad ysgrifenedig o'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad arolygu a'r graddfeydd amser ar gyfer cwblhau'r camau arfaethedig.

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | | |
|---|---|---|
| **Cyd-destun** | | **1** |
| **Crynodeb** | | **3** |
| **Argymhellion** | | **6** |
| **Safonau** | | **7** |
| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | | 7 |
| **Ansawdd addysg a hyfforddiant** | | **9** |
| Cwestiwn Allweddol 2: | Pa mor effeithiol yw’r addysgu, yr hyfforddi a’r asesu? | 9 |
| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a’r gymuned ehangach? | 10 |
| Cwestiwn Allweddol 4: | Pa mor dda yw’r gofal, y cyfarwyddyd a’r gefnogaeth i ddysgwyr? | 12 |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | | **14** |
| Cwestiwn Allweddol 5: | Pa mor effeithiol yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth strategol? | 14 |
| Cwestiwn Allweddol 6: | Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | 15 |
| Cwestiwn Allweddol 7: | Pa mor effeithlon y mae’r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | 16 |
| **Ymateb y darparwr i ganfyddiadau’r adroddiad** | | **19** |
| **Atodiad 1** Sail dystiolaeth yr arolygiad | | |
| **Atodiad 2** Y tîm arolygu | | |

## Cyd-destun

### Natur y darparwr

1 Coleg arbenigol annibynnol yw Coleg Elidyr sy'n cael ei redeg gan yr elusen Coleg Elidyr, Cymunedau Camphill, sy'n cynnig darpariaeth breswyl i ddysgwyr rhwng 18 a 30 oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 33 o ddysgwyr, 11 yn cael eu hariannu gan Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru a naw yn cael eu hariannu gan y Cyngor Dysgu a Sgiliau (LSC) yn Lloegr. Roedd adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn ariannu 10 dysgwr o Loegr a dau ddysgwr o Gymru. Roedd un dysgwr yn cael ei ariannu gan ymddiriedolaeth iechyd yn Lloegr. Mae gan bob un o'r dysgwyr anawsterau dysgu sy'n amrywio o fod yn gymedrol i fod yn ddwys, yn aml gydag anabledd arall, ac mae gan rai ohonynt anableddau corfforol llai difrifol. Mae gan lawer o ddysgwyr syndromau penodol fel Syndrom Down, Syndrom Williams neu Syndrom Asperger. Mae'r gymuned yn aelod o Gymdeithas Cymunedau Camphill, sy'n gweithio i greu cymunedau ar gyfer plant neu oedolion sy'n agored i niwed sydd ag anawsterau dysgu lle gallant fyw, gweithio a dysgu gydag eraill mewn perthynas gymdeithasol iach yn seiliedig ar ofal, cymorth a pharch y naill at y llall. Mae bywyd cymunedol Camphill wedi'i seilio ar waith Rudolf Steiner a Doctor Karl König a oedd yn defnyddio delfrydau Cristnogol anenwadol yn sail ar gyfer eu haddysgu.

2 Mae Coleg Elidyr wedi'i leoli mewn 180 acer o dir fferm ar gyrion pentref Rhandirmwyn, saith milltir o dref Llanymddyfri. Mae wyth tŷ ar y tir lle mae dysgwyr yn byw mewn grwpiau teuluol cefnogol estynedig, ac yn mynychu'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ar y safle, a phan fydd angen, cânt therapi unigol. Mae dysgwyr yn dilyn rhaglen tair blynedd sy'n cynnwys datblygu medrau byw yn annibynnol, medrau galwedigaethol a chrefft, a datblygu medrau sylfaenol ac allweddol. Gallant fynd ymlaen i fod yn hyfforddeion ar safle Rhandirmwyn neu symud i Dŷ Victoria yn Llangadog, a nod y naill a'r llall yw darparu rhaglen alwedigaethol, sy'n fwy ar gyfer oedolion. Mae'r pwyslais yn Nhŷ Victoria ar integreiddio i'r gymuned ehangach.

### Blaenoriaethau a thargedau'r coleg

3 Nod y coleg yw:

- datblygu medrau dysgwyr ar gyfer bywyd a gwaith a pharch at yr amgylchedd;
- dathlu amrywiaeth ac annog twf a datblygiad personol; a
- galluogi dysgwyr i fyfyrio ar ystyr dyfnach eu bywydau eu hunain a bywydau'r bobl o'u hamgylch.

4 Mae cynllun trawsnewid y coleg yn cynnwys amcanion i wella'r agweddau canlynol ar y ddarpariaeth:

- effeithiolrwydd cyffredinol arweinyddiaeth a rheolaeth;
- sicrhau ansawdd ar draws y coleg;

- safonau ac ansawdd yr addysgu;
- adnoddau ar gyfer TGCh; a
- darpariaeth y cwricwlwm.

## Crynodeb

5 At ei gilydd, mae'r proffil graddau a ddyfarnwyd i'r coleg yn foddhaol. Ceir nodweddion da a dim diffygion pwysig mewn safonau cyflawniad. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, mae diffygion yn ansawdd yr addysgu, y cwricwlwm, y gofal, yr arweiniad a'r cymorth, ac yn y modd y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau ac yn defnyddio adnoddau. Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn annigonol. Mae'r ymglymiad agosach yn ddiweddar iawn gan yr ymddiriedolwyr a'r newidiadau a'r cynlluniau dilynol a wnaed gan reolwyr y coleg eto i effeithio ar ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth. Serch hynny, at ei gilydd, mae'r coleg yn rhoi gwerth boddhaol am arian. .

**Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd**

6 Barnodd y tîm arolygu fod gwaith y coleg fel a ganlyn:

| **Cwestiwn Allweddol** | **Gradd arolygu** |
|---|---|
| 1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | 2 |
| 2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | 3 |
| 3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | 3 |
| 4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? | 3 |
| 5 Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol? | 4 |
| 6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | 3 |
| 7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | 3 |

**Safonau**

7 Mae dysgwyr yn ennill annibyniaeth ac yn dod yn fwy hunanhyderus, yn aml o waelodlin isel iawn. Ceir achosion lle mae dysgwyr yn gweithio'n annibynnol yn dda iawn a heb lawer o anogaeth. Caiff dysgwyr ystod gynyddol o achredu priodol ar lefel mynediad a dealltwriaeth dda o'r arferion sydd eu hangen i weithio yn y gymuned ehangach neu mewn amgylchedd mwy cysgodol. Mae dysgwyr mwy abl yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol fel gweithio gydag eraill a gwella eu dysgu eu hunain.

8 Mae bron pob un o'r dysgwyr wedi'u cymell yn dda, maent yn mwynhau bywyd coleg ac yn gwneud cynnydd da. Maent yn mynychu ac yn ymddwyn yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o ddysgwyr yn ymddwyn yn dda nac yn ymgysylltu yn y sesiynau. Maent yn hwyr yn cyrraedd weithiau.

## Ansawdd addysg a hyfforddiant

9 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'u sesiynau'n dda ac yn gweddu'r gwaith i alluoedd ac anghenion dysgwyr. Gwnânt ddefnydd da o gyd-destunau ymarferol a realistig i atgyfnerthu'r dysgu. Maent yn gosod amcanion ar ddechrau'r sesiynau ac yn gwneud defnydd da o alw i gof a chrynhoi i ddangos i ddysgwyr yr hyn y maent wedi'i ddysgu a pha mor dda y maent wedi ymddwyn.

10 Fodd bynnag, nid yw athrawon yn gwneud digon o ddefnydd o asesiadau a gosod targedau yn ofalus yn y cynlluniau dysgu unigol, a chofnodion o gyflawniad a dysgu yn gysylltiedig â gwaith, i lywio eu cynllunio. Nid ydynt bob amser yn cynllunio'n ddigon gofalus ar gyfer rheoli ymddygiad anodd neu ddiwallu anghenion hyfforddeion sy'n oedolion.

11 Mae rheolwyr yn cynllunio'r cwricwlwm yn foddhaol ac maent yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â rhieni, gofalwyr a chyrff allanol. Rhoddir pwyslais priodol ar fyw yn annibynnol, a medrau sylfaenol, allweddol a galwedigaethol. Gall dysgwyr ennill ystod briodol o gymwysterau a datblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol, foesol a diwylliannol. Cânt gyfleoedd da i gael gwybod am fyd gwaith yn y gweithdai galwedigaethol ac mewn lleoliadau gwaith i ffwrdd o'r safle hefyd, ac maent yn dysgu am y broses ddemocrataidd. Fodd bynnag, nid yw'r coleg yn gwneud digon o ddefnydd o'i gyfleusterau a'i safle ei hun i roi rhagflas o waith i ddysgwyr ag anghenion mwy cymhleth. Nid yw'r coleg yn cynllunio'n ddigon da i baratoi dysgwyr ar gyfer gadael y coleg. Nid yw dysgwyr mwy abl yn derbyn rhaglen briodol o addysg bersonol, iechyd, cymdeithasol a pherthynas.

12 Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn foddhaol. Mae staff a dysgwyr yn adnabod ac yn parchu ei gilydd yn dda. Mae'r coleg yn gwneud defnydd da o weithwyr proffesiynol allanol i roi cymorth ychwanegol i ddysgwyr ag anawsterau penodol. Mae staff yn defnyddio mwy a mwy o gyfathrebu estynedig da ar draws y coleg i wneud yn siŵr bod pob un o'r dysgwyr yn cael eu clywed. Mae gwirfoddolwyr gwadd yn fodelau rôl da ar gyfer dysgwyr. Mae polisïau a gweithdrefnau yn cefnogi lles dysgwyr yn briodol. Mae trefniadau sefydlu yn helpu dysgwyr i ymgynefino'n gyflym a deall yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt. Mae rheolwyr yn asesu dysgwyr yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth werthfawr hon i osod targedau priodol ar gyfer llythrennedd, rhifedd, medrau byw yn annibynnol ac ymddygiad. Fodd bynnag, mae'r coleg wedi bod yn araf yn ymateb i'w rwymedigaethau cytundebol mewn diogelu ac ni roddir digon o sylw i faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth

13 At ei gilydd, mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn anfoddhaol. Er bod cenhadaeth briodol, y mae pob un o'r staff yn ei rhannu a'i deall, a chynllun datblygu tair blynedd priodol, nid yw ymddiriedolwyr ac uwch reolwyr wedi sefydlu trywyddau atebolrwydd clir eto ac nid ydynt yn gweithio'n ddigon da i lywio trefn well ar gyfer gwneud penderfyniadau.

14 Mae cynlluniau datblygedig i wella rheoli perfformiad staff ac ailstrwythuro swyddogaethau rheoli. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau hyn wedi cael eu rhoi ar waith eto. Nid yw ymddiriedolwyr a rheolwyr bob amser yn glir ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth ac nid ydynt yn gwneud digon o

ddefnydd o ddata i nodi tanberfformio a gosod targedau ar gyfer gwella. Nid ydynt yn monitro'r cynlluniau gweithredu sy'n gysylltiedig â Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 a'r Ddeddf Cydraddoldeb. Nid yw ymddiriedolwyr yn asesu eu perfformiad eu hunain ac nid ydynt wedi cael hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth. Nid ydynt wedi monitro'r cynnydd yn mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd mewn arolygiadau ac ymweliadau monitro blynyddol blaenorol yn ddigon da.

15 Ceir trefniadau boddhaol ar gyfer arfarnu a gwella ansawdd a safonau yn y coleg. Mae cylch sicrhau ansawdd priodol sy'n cynnwys arsylwadau athrawon a hunanarfarniadau. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn wedi cael eu cyfuno mewn fframwaith clir i staff eu deall. Mae uwch reolwyr wedi ymweld â darparwyr eraill ond nid yw staff eraill wedi cael cyfleoedd tebyg i fesur eu harfer yn erbyn darparwyr eraill a gwneud gwelliannau. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn fanwl ond yn rhy ddisgrifiadol mewn mannau. Mae'r coleg wedi dechrau mynd i'r afael â rhai o'r argymhellion o'r ymweliadau arolygu blaenorol ond ni fu ymdeimlad o frys tan yn ddiweddar ac nid yw llawer o argymhellion wedi cael eu bodloni'n llawn o hyd.

16 Mae rheolwyr yn defnyddio adnoddau yn briodol. Mae digon o staff addysgu a chymorth sydd â phrofiad addas i gyflwyno'r cwricwlwm yn dda. Mae'r coleg yn cefnogi athrawon sydd â chymhwyster addysgu yn dda i roi'r cyfle iddynt ennill statws athro cymwys (SAC). Mae datblygiad staff yn nodwedd dda yn y coleg ond ni chaiff ei effaith ei fesur yn ddigon da. Ni roddir digon o hyfforddiant i wirfoddolwyr gwadd gyflawni eu rolau. At ei gilydd, mae'r adnoddau dysgu yn foddhaol ac eithrio ar gyfer llyfrau a deunyddiau medrau sylfaenol. Mae adnoddau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) wedi gwella'n ddiweddar. Mae staff wedi ymrwymo i ddefnyddio adnoddau cynaliadwy. Mae'r safle yn addas ac mae yna strategaeth briodol i wella'r safle ymhellach. Mae'r coleg yn darparu gwerth boddhaol am arian.

## Argymhellion

17 Er mwyn gwella, mae angen i'r staff a'r perchnogion:

A1 wneud yn siwr bod y coleg yn cydymffurfio'n llawn â gofynion cyrff ariannu, yn enwedig mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth a diogelu;

A2 gwneud yn siwr bod pob un o'r dysgwyr yn ymgysylltu'n llawn ym mhob sesiwn;

A3 gwella cynllunio athrawon i wneud defnydd gwell o wybodaeth asesu i gynllunio ar gyfer gwella ymddygiad a diwallu anghenion pob un o'r dysgwyr;

A4 gwneud yn siwr bod y cwrs addysg bersonol, iechyd, cymdeithasol a pherthynas yn paratoi dysgwyr i ddelio gyda'r materion mwy anodd y gallent eu hwynebu yn y gymuned ehangach;

A5 rhoi mwy o flaenoriaeth i faterion trosglwyddo trwy gydol rhaglenni pob un o'r dysgwyr a chreu rhaglen unigryw ar gyfer hyfforddeion;

A6 egluro cyfrifoldebau ac atebolrwydd uwch reolwyr a gwneud yn siwr bod hyfforddeion yn rhoi cydbwysedd priodol iddynt o gymorth a her i hyrwyddo a chynnal gwelliant; a

A7 gweithredu ac ymgorffori gweithdrefnau adolygu trylwyr i hyrwyddo a sicrhau cynllunio ar gyfer gwella.

## Safonau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

18 Yn ei adroddiad hunanarfarnu, dyfarnodd y coleg radd 2 ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn a luniwyd gan y coleg.

19 Mae'r safonau a gyflawnir mewn sesiynau fel a ganlyn:

| Safonau cyflawniad dysgwyr | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gradd 1** | **Gradd 2** | **Gradd 3** | **Gradd 4** | **Gradd 5** |
| 12% | 63% | 25% | 0% | 0% |

20 Mewn tri chwarter o'r sesiynau, mae safonau'n dda neu'n well, fodd bynnag, yng ngweddill y sesiynau, mae diffygion yn y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr.

21 Mae dysgwyr yn mwynhau bod yn rhan o gymuned coleg a dysgu bod yn fwy annibynnol, yn aml o waelodlin isel iawn. O ganlyniad i'r twf hwn mewn annibyniaeth, mae dysgwyr yn magu hunanhyder. Maent yn gwneud ffrindiau newydd. Maent yn dechrau cael diddordebau newydd sydd wedi'u cynllunio i'w cynnal yn eu bywyd yn ddiweddarach fel mynd i glwb ieuenctid y coleg, cymdeithasu yn y dafarn leol, dawnsio salsa ac aros mewn hostel ieuenctid.

22 Yn y tai preswyl, mae dysgwyr yn ymarfer ac yn gwella'r medrau sydd eu hangen arnynt i ofalu amdanynt eu hunain ac, o ganlyniad, maent yn dod yn fwy annibynnol. Mae'r medrau hyn yn cynnwys hylendid personol, gofalu am eu dillad a chynllunio a pharatoi prydau. Mae dysgwyr bellach yn cael achrediad priodol am y gwaith pwysig hwn.

23 Mae dysgwyr yn ymddwyn yn gyfrifol yn y gweithdai galwedigaethol a cheginau'r tŷ. Ceir enghreifftiau da o weithio annibynnol, sy'n rhagorol o bryd i'w gilydd. Mae'r dysgwyr hyn yn trefnu eu hunain yn dda iawn ac nid oes angen llawer o anogaeth arnynt gan yr athro. Maent yn rhoi sylw da i iechyd a diogelwch a hylendid. Er enghraifft, maent yn trin offer yn y gweithdy gwaith saer gyda gofal, maent yn gwneud yn siwr bod ganddynt yr esgidiau diogel cywir ar y fferm ac yn deall bod cyllyll yn finiog ac y gall y tegell fod yn boeth. Mae gan ddysgwyr mwy abl ddealltwriaeth dda o sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel.

24 Mae cyflwyno lleoliadau gwaith o ansawdd da yn ddiweddar yn helpu dysgwyr i ddatblygu agwedd gyfrifol at yr arferion sydd eu hangen i gynnal swydd, fel bod yn brydlon a gwisgo'n briodol. Maent yn cynllunio ac yn trefnu eu pecyn bwyd ac yn gwneud yn siwr bod ganddynt y dillad a'r esgidiau priodol mewn da bryd. Maent yn frwdfrydig ynglŷn â'r cyfleoedd gwell hyn ac yn awyddus i drafod eu cyflawniad gyda staff ac ymwelwyr.

25 Mae rhai dysgwyr mwy abl yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau sylfaenol. Mewn coginio ac mewn adwerthu, mae ganddynt yr hyder i ddarllen yn uchel, dysgu ysgrifennu testun syml a thrafod peryglon a risgiau posibl. Gwnânt ddefnydd da o'u medrau rhifedd sy'n gwella i gyfrif a phwyso stoc a chynhwysion. Maent yn cydnabod eu cynnydd ac yn ymfalchïo'n fawr yn y cyflawniadau hyn.

26 Mae dysgwyr yn elwa ar gyfleoedd da i ddatblygu eu hymwybyddiaeth gymdeithasol, foesol, ysbrydol a diwylliannol. Maent yn mwynhau dod i wybod am ddiwylliannau eraill. Mae ethos y gymuned, sy'n gwerthfawrogi natur unigryw unigolion, yn rhoi dealltwriaeth glir iawn iddynt o sut i drin pobl eraill.

27 Mae'r coleg wedi ymdrechu'n ddiweddar i gynyddu'r defnydd o gyfathrebu estynedig. O ganlyniad, ar y cyfan, mae dysgwyr yn dangos dealltwriaeth dda o arwyddion ac mae dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth bellach yn gallu cymryd rhan mewn ystod ehangach o weithgareddau.

28 Caiff dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth ystod gynyddol o gymorth priodol gan ystod o weithwyr proffesiynol a therapyddion. Ceir rhai enghreifftiau da iawn o ddysgwyr sydd, gyda'r cymorth gwerthfawr hwn, wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella eu lefelau o hunanreolaeth a rheoli eu hymddygiad. Maent wedi ymbwyllo mwy ac maent yn awr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a oedd yn cael eu hystyried yn rhy beryglus o'r blaen. Mae rhieni a gofalwyr wedi sylwi ar y gwelliannau hyn.

29 Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau eu sesiynau, maent yn mynychu ac yn ymddwyn yn dda ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn dysgu gweithio'n dda ochr yn ochr â dysgwyr eraill. Maent yn gweithio'n dda mewn timau yn enwedig ar y fferm ac mewn amaethyddiaeth a garddio. Maent yn gwrando'n ofalus ar staff ac ar ei gilydd ac yn dysgu dilyn cyfarwyddiadau. Ceir enghreifftiau da o ddilyniant fel gwneud uniadau bysedd o ansawdd da a symud ymlaen i uniadau cynffonnog mewn gwaith saer. Fodd bynnag, nid yw rhai dysgwyr yn ymgysylltu mewn sesiynau nac yn ymddwyn yn dda bob amser. O bryd i'w gilydd, mae dysgwyr yn cyrraedd eu sesiynau yn rhy hwyr. O ganlyniad, nid ydynt yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent.

## Ansawdd addysg a hyfforddiant

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?**

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

30 Yn ei adroddiad hunanarfarnu, dyfarnodd y coleg radd 2 i'r cwestiwn allweddol hwn. Dyfarnodd y tîm arolygu radd is oherwydd bod diffygion yn ansawdd yr addysgu. Barnwyd bod ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

| Ansawdd yr addysgu yn y meysydd dysgu a arolygwyd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gradd 1** | **Gradd 2** | **Gradd 3** | **Gradd 4** | **Gradd 5** |
| 0% | 75% | 25% | 0% | 0% |

31 Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar y cyfan gyda rhai diffygion. Mewn tri chwarter o'r sesiynau, mae'r addysgu yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig. Fodd bynnag, mae diffygion yn chwarter y sesiynau sy'n weddill.

32 Pan fydd yr addysgu yn dda, ceir tystiolaeth glir o gynllunio gofalus gan ddefnyddio profforma cyffredin. Mae'r cynlluniau gwersi hyn yn dangos cysylltiadau â medrau sylfaenol ac allweddol a themâu traws gwricwlaidd ehangach fel menter tîm a'r Cwricwlwm Cymreig. Yn y sesiynau hyn, mae athrawon yn galw sesiynau blaenorol i gof ac yn gosod amcanion clir ar ddechrau'r sesiwn. Maent yn cynllunio ystod ddiddorol o weithgareddau i ennyn diddordeb y dysgwyr. Gwneir defnydd da o gwestiynau i helpu dealltwriaeth dysgwyr a rhoddir sylw da i fedrau sylfaenol a'r medrau allweddol ehangach. Mae athrawon yn rhoi esboniadau clir ac adborth defnyddiol ar ba mor dda y mae dysgwyr yn gweithio, ac ar ddiwedd y sesiynau maent yn crynhoi'r hyn y mae dysgwyr wedi'i ddysgu a pha mor dda y maent wedi ymddwyn.

33 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gosod tasgau unigol neu grŵp sy'n gweddu'n dda i anghenion a galluoedd y dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio eu harbenigedd cynyddol mewn cyfathrebu estynedig i wneud yn siwr bod pob un o'r dysgwyr yn cael eu cynnwys yn y sesiynau. Ceir enghreifftiau da o daflenni gwaith wedi'u teilwra gyda symbolau i ennyn diddordeb dysgwyr a chynyddu eu dealltwriaeth o'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud.

34 Mae athrawon yn gwneud defnydd da iawn o gyd-destunau realistig ac ymarferol fel y siop, y fferm a'r ardd i atgyfnerthu a datblygu medrau dros gyfnod fel pwyso siwgr, plannu hadau a gofal cwsmeriaid.

35 Pan fo diffygion, nid yw athrawon bob amser yn defnyddio digon o arwyddion i wneud yn siwr bod pob un o'r dysgwyr wedi ymgysylltu trwy gydol y sesiwn. Nid yw cynlluniau sesiynau bob amser yn dangos y strategaethau y dylid eu defnyddio i reoli'r ymddygiad mwy anodd, ac o bryd i'w gilydd, nid yw athrawon yn gweithredu'n ddigon cyflym i atal ymddygiad gwael. Pan fydd dysgwyr yn cyrraedd yn hwyr, nidydynt bob amser yn cael eu herio digon. Nid yw cynlluniau gwersi bob amser yn cynnwys digon o fanylion ynglŷn â sut bydd athrawon yn diwallu anghenion hyfforddeion sy'n oedolion.

36 Mae gwirfoddolwyr gwadd yn rhoi cymorth ymarferol gwerthfawr mewn sesiynau. Maent yn adnabod y dysgwyr ac yn uniaethu â nhw yn dda. Fodd bynnag, ni chaiff eu cyfraniad at y sesiynau ei gynllunio neu'i gofnodi'n ffurfiol bob amser.

37 Defnyddir canlyniadau'r asesiadau cychwynnol trylwyr i osod targedau unigol ar gyfer pob un o'r dysgwyr, sy'n cael eu cofnodi'n ofalus yng nghofnodion y gweithle o ddysgu a chyflawniad, ac yn y cynlluniau dysgu unigol. Fodd bynnag, ni chaiff y targedau defnyddiol hyn eu defnyddio'n gyson gan bob un o'r staff addysgu i lywio eu cynllunio o ddydd i ddydd. Hefyd, nid yw'r targedau cyfathrebu a gyflwynwyd yn ddiweddar bob amser yn llywio cofnodion yn y gweithle ar gyfer dysgu a chyflawniad a chynllunio gwersi. Nid yw ffurflenni cynllunio gwersi yn cynnwys adran ar gyfer cynllunio i roi cyfleoedd i ddysgwyr fodloni eu targedau yn ystod y sesiwn.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

| **Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion** |
|---|

38 Yn ei adroddiad hunanarfarnu, dyfarnodd y coleg radd 3 iddo'i hun ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd hon.

39 At ei gilydd, mae'r coleg yn darparu cwricwlwm addas i ddiwallu anghenion a bodloni diddordebau'r dysgwyr. Rhoddir pwyslais priodol ar fedrau byw yn annibynnol, medrau galwedigaethol a sylfaenol ac allweddol. Mae cyrsiau yn cynnwys gardd a natur, coetiroedd a chadwraeth, gwehyddu, chwaraeon ac iechyd, ewrhythmeg a drama, a TGCh. Ceir cyfleoedd cynyddol i ddysgwyr ennill ystod briodol o achredu ar draws holl feysydd y cwricwlwm yn bennaf trwy Ddyfarniadau'r Rhwydwaith Coleg Agored (RhCA). Mae'r coleg wedi cyflwyno Dyfarniad y Porth yn ddiweddar iawn.

40 Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi cydnabod bod angen i ddysgwyr allu defnyddio TGCh ar draws y cwricwlwm. Mae dysgwyr wedi gwella'r defnydd o gyfrifiaduron a'r feddalwedd briodol yn ystod sesiynau ar wahân. Nid yw'r defnydd gwell hwn yn ymestyn ar draws y cwricwlwm.

41 Mae'r coleg yn darparu ystod gynyddol o gyfleoedd i ddysgwyr ymuno gyda'r gymuned leol a'r gymuned ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau â'r clwb merlod, y pwll nofio, gwersyll gwyliau a gwibdeithiau siopa. Mae'r profiadau gwerthfawr hyn yn rhoi persbectif ehangach i ddysgwyr a chyfle i ymarfer eu medrau cymdeithasol sy'n datblygu a'u medrau byw yn annibynnol.

42 Ceir darpariaeth dda i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr. Mae staff yn gwneud defnydd da o wyliau o amrywiaeth o ddiwylliannau a chredoau i'w cyflwyno mewn gweithgareddau trwy gydol y flwyddyn. Maent yn cysylltu'r rhain yn ofalus â meysydd y cwricwlwm, gwasanaethau agweithgareddau allgyrsiol. Mae encilfa bywgraffiad Blwyddyn 3 yng Nghiliau Aeron yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr fyfyrio ar eu cynnydd a'i adolygu, a gwneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

43 Mae'r coleg yn defnyddio gweithgareddau codi arian yn dda i annog dysgwyr i feddwl am, a deall, anghenion pobl mewn rhannau eraill o'r byd. Er enghraifft, mae dysgwyr yn gwneud cynnyrch ac yn ei werthu i godi arian ar gyfer prosiect ym Madagasgar.

44 Mae'r coleg wedi cyflwyno rhaglen Addysg Bersonol, Iechyd, Cymdeithasol a Pherthynas yn ddiweddar. Mae hyn yn cynnwys sesiynau ar addysg rhyw ac iechyd rhywiol, perthnasoedd a sut i drin pobl eraill. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen yn diwallu anghenion y dysgwyr mwy abl a fydd efallai un diwrnod yn byw yn annibynnol ac yn gorfod cadw eu hunain yn ddiogel. Nid yw'r rhaglen yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y dysgwyr hyn, na chyfleoedd i ystyried a myfyrio sut byddant yn delio â materion anodd y gallent eu hwynebu allan yn y gymuned ehangach. Mae'r materion anodd hyn yn cynnwys camddefnyddio alcohol a thoddyddion, diogelu, hiliaeth ac anabledd.

45 Ceir gweithio da mewn partneriaeth gyda rhieni a gofalwyr trwy fynychu adolygiadau blynyddol, penwythnosau chwarterol ar gyfer rhieni/gofalwyr a seremonïau gwobrwyo dysgwyr. Mae'r coleg yn darparu ystod dda o ddigwyddiadau sy'n cydnabod ac yn dathlu cyflawniad dysgwyr. Mae'r coleg yn gweithio'n agos gyda thîm anabledd Sir Gâr, Ceredigion a Sir Benfro i wella cyfathrebu estynedig.

46 Caiff dysgwyr yn awr ystod o leoliadau gwaith defnyddiol sy'n rhoi cyfleoedd da iddynt ddod i wybod am fyd gwaith. Mae'r lleoliadau hyn yn cynnwys garej, stablau, siop flodau a chaffi. Ar hyn o bryd, mae llai o gyfleoedd i ddysgwyr ag anghenion mwy cymhleth gael profiad o leoliadau sy'n gysylltiedig â gwaith. Nid yw'r coleg yn gwneud digon o ddefnydd o'i gyfleusterau ei hun ar y safle i gefnogi'r gwaith hwn.

47 Mae'r coleg yn annog parch at yr amgylchedd ac yn hyrwyddo dealltwriaeth dysgwyr o ddatblygiad cynaliadwy yn dda. Mae ailgylchu, compostio ac arbed ynni wedi ennill eu plwyf yn dda. Caiff bwyd ei dyfu, ei goginio a'i fwyta a'i fwynhau gan y gymuned ar y safle. Mae llawer o feysydd y cwricwlwm yn pwysleisio gwerth cynaliadwyedd yn y cwricwlwm.

48 Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn prosiectau menter tîm ar raddfa fechan sy'n cynnwys gwerthu canhwyllau i drigolion y pentref lleol, gwasanaeth glanhau ceir a gwerthu basgedi crog. Mae'r gweithgareddau hyn yn cefnogi datblygu medrau sylfaenol ac allweddol dysgwyr, y penderfyniadau a wnânt a'u dealltwriaeth o weithgarwch economaidd.

49 Mae'r coleg yn rhoi cyfleoedd da i ddysgwyr ddysgu am y broses ddemocrataidd a sut i ddod yn ddinasyddion da. Mae'r rhain yn cynnwys cymryd rhan yn y fforwm dysgwyr sy'n trafod gweithgareddau a mentrau amrywiol y coleg. Mae dysgwyr wedi cael hyfforddiant defnyddiol yn ddiweddar ar weithdrefnau etholiadol gan MENCAP. Mae dysgwyr yn elwa ar gyfarfodydd gydag aelodau a etholwyd yn lleol er mwyn iddynt allu trafod a chodi materion sy'n peri pryder iddynt.

50 Ni roddir digon o flaenoriaeth i'r rhaglen drosglwyddo i baratoi dysgwyr ar gyfer gadael y coleg. Nid oes trefniadau ffurfiol i ddysgwyr gael addysg ac arweiniad gyrfaoedd yn y cwricwlwm. Mae hyfforddeion yn ymuno â sesiynau gyda dysgwyr iau ac nid oes ganddynt raglen ar wahân sy'n gweddu i anghenion dysgwyr sy'n oedolion.

## Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

51 Dyfarnodd y coleg radd 2 iddo ef ei hun ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn. Nid oedd canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd hon oherwydd nododd ddiffygion mewn rhai meysydd.

52 Mae llawer o nodweddion da yng ngwaith y coleg i gefnogi ei ddysgwyr a gofalu amdanynt. Mae dysgwyr a thiwtoriaid yn parchu ei gilydd ac mae cysylltiadau cryf rhwng darpariaeth breswyl a darpariaeth addysgol sy'n helpu dysgwyr i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae'r defnydd o wirfoddolwyr gwadd sy'n byw yn y coleg, sy'n aml yr un oedran â dysgwyr, yn darparu modelau rôl da ar gyfer dysgwyr ac yn helpu iddynt ehangu eu gorwelion.

53 Mae ystod o bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer lles dysgwyr ac i helpu staff i ymdrin yn sensitif ag unrhyw faterion a allai effeithio ar gynnydd dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys atal bwlio, diogelwch ar y rhyngrwyd, rheoli ymddygiad ac asesiadau risg cynhwysfawr sy'n cynnwys dysgwyr. Mae'r coleg wedi cyflwyno polisi cwyno yn ddiweddar ond mae'n rhy gynnar i asesu ei effaith. Caiff cofnod o ddigwyddiadau a 'methiannau agos' ei gynnal, er nad yw'r rhain yn cael eu dadansoddi'n llawn bob amser i lywio cynlluniau yn y dyfodol.

54 Mae trefniadau sefydlu'r coleg yn helpu dysgwyr i ymgynefino'n gyflym a deall eu hamserlenni a sut mae staff yn disgwyl iddynt ymddwyn. Caiff dysgwyr gyfleoedd da i ymweld â'r coleg gyda'u rhieni/gofalwyr cyn dechrau, i gyfarfod â dysgwyr eraill a'r staff, ac ymgyfarwyddo â safle'r coleg.

55 Mae'r Fforwm Dysgwyr yn nodwedd gref yn y coleg. Mae'n darparu llwyfan i ddysgwyr fynegi eu barn. Caiff awgrymiadau sy'n cael eu gwneud gan y fforwm eu gweithredu ac maent yn aml yn dylanwadu ar feysydd allweddol o'r coleg fel iechyd a diogelwch a gwella'r cwricwlwm.

56 Mae staff yn cwblhau cofrestri presenoldeb yn briodol. Mae uwch reolwyr wedi dechrau monitro presenoldeb a phrydlondeb dysgwyr yn fwy gofalus yn ddiweddar er mwyn iddynt allu cynnig cymorth gwell pan fydd angen.

57 Mae ymgynghorwyr Gyrfa Cymru yn mynychu adolygiadau blynyddol ac yn rhoi cyngor ac arweiniad defnyddiol i ddysgwyr ar yrfaoedd. Mae dysgwyr a staff yn trafod gyrfaoedd ar gyfer y dyfodol, ac mae elfen alwedigaethol y cwricwlwm yn rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o faterion sy'n gysylltiedig â gwaith.

58 Mae systemau effeithiol ar waith i wneud diagnosis o anghenion dysgu ychwanegol unigol. Yn ystod yr wyth wythnos gyntaf yn y coleg, mae staff preswyl a staff addysgu yn asesu anghenion, galluoedd a diddordebau dysgwyr yn drylwyr. Mae uwch reolwyr yn defnyddio canlyniadau'r asesiad gofalus hwn i lywio cynlluniau dysgu unigol (CDUau) a chofnodion o ddysgu a chyflawniad yn y gweithle (CDChG) y dysgwyr, ac i osod targedau clir a mesuradwy ar gyfer llythrennedd a rhifedd, medrau byw yn annibynnol ac ymddygiad.

59 Mae cysylltiadau cynyddol gydag ystod o weithwyr proffesiynol allanol, gwasanaethau cymorth a therapyddion i roi gwybodaeth asesu werthfawr sy’n arwain at gynlluniau ar gyfer gweithredu. Er enghraifft, mae’r coleg yn gwneud defnydd da o therapydd lleferydd ac iaith, seicolegydd addysg a seicolegydd clinigol, cynllun eiriolaeth a therapi Bowen i gefnogi dysgwyr ag anawsterau personol penodol fel rheoli eu hymddygiad a delio â phrofedigaeth.

60 Yn ddiweddar, mae’r coleg wedi gwneud dechrau da ar roi cyfathrebu estynedig ar waith ar draws y coleg. Mae staff yn defnyddio symbolau yn dda i helpu dysgwyr sydd ag anawsterau cyfathrebu i fynegi eu teimladau a’u dewisiadau, ac mae hyn yn golygu bod y cwricwlwm ar gael yn well iddynt. Mae staff preswyl a chogyddion yn gwneud defnydd da o symbolau i gynnwys pob un o’r dysgwyr hefyd. Maent yn rhoi cymorth da i rieni a gofalwyr gyda’r gwaith hwn trwy anfon llyfrau cyfathrebu addasedig adref.

61 Mae’r coleg wedi bod yn araf yn ymateb i’w rwymedigaethau cytundebol mewn diogelu. Dim ond yn ddiweddar iawn y mae staff ac ymddiriedolwyr wedi cael eu cynnwys mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth ar sut i hyrwyddo amgylchedd dysgu diogel, yn ogystal â’r hyfforddiant a gaiff staff newydd a gwirfoddolwyr yn ystod y cyfnod sefydlu. Mae swyddog diogelu’r coleg wedi’i hyfforddi hyd at lefel 3 mewn diogelu ac fe gaiff ei hyfforddiant ei ddiweddaru’n rheolaidd. Er bod y coleg bellach wedi creu un cofnod archwilio a recriwtio sy’n dangos bod pob un o’r staff, yr ymddiriedolwyr a’r gwirfoddolwyr wedi cael gwiriadau’r Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT), nid yw ymddiriedolwyr a rheolwyr yn adolygu’r wybodaeth hon yn systematig nac yn cael trosolwg o weithredu’r polisi diogelu.

62 Nid yw’r coleg yn rhoi digon o sylw i faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Er bod staff yn rhoi dealltwriaeth dda i ddysgwyr o ddiwylliannau eraill, nid ydynt yn gwneud digon i hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion pwysig fel rhyw, anabledd a hil. Nid yw’r coleg wedi dod â’r gwaith pwysig hwn at ei gilydd mewn un cynllun cydraddoldeb ac nid yw’n monitro nac yn dadansoddi cyflawniad gwahanol grwpiau o ddysgwyr er mwyn gosod targedau ar gyfer gwella.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

### Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

**Gradd 4: Nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig**

63 Dyfarnodd y coleg radd 3 iddo'i hun ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn. Nid oedd canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd hon oherwydd nododd ddiffygion mewn rhai meysydd pwysig. At ei gilydd, mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn anfoddhaol.

64 Mae gan y coleg genhadaeth briodol ac mae'n dangos ymrwymiad clir i addysgu, hyfforddi, arwain a chefnogi dysgwyr i ennill medrau byw yn annibynnol, datblygu hunanwybodaeth, medrau cyfathrebu a chymdeithasol, cymryd cyfrifoldeb, gwneud dewisiadau personol a dysgu bod yn ddinasyddion da. Caiff y genhadaeth ei rhannu a'i pherchnogi gan bob un o'r staff ac fe gaiff ei hadolygu'n rheolaidd i wneud yn siwr ei bod yn adlewyrchu diben a gwerthoedd y coleg.

65 Mae rheolwr y coleg yn arwain grŵp rheoli sy'n cynnwys Pennaeth Addysg, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Adnoddau Dynol, Pennaeth Gofal a Phennaeth Sicrhau Ansawdd. Mae'r tîm hwn yn gyfrifol am reoli'r coleg, ac ar y cyd â Chyngor (bwrdd o Ymddiriedolwyr), am osod cyfeiriad strategol y coleg. Mae gan y coleg gynllun datblygu tair blynedd, priodol ac, ar y cyd â'r ymddiriedolwyr, mae gan y grŵp rheoli gyfrifoldeb clir am arwain a rheoli'r coleg yn strategol ac yn weithredol.

66 Dim ond yn ddiweddar y mae'r grŵp rheoli wedi sefydlu cyflenwad llawn o aelodau. Ymunodd dau aelod â'r grŵp rheoli dros y chwe mis diwethaf ac mae dau aelod arall o'r grŵp wedi bod yn eu swydd ers dwy flynedd yn unig. Erbyn hyn, mae gan y grŵp gyfuniad da o fedrau addysg, gofal a phroffesiynol eraill i gefnogi'r gwaith pwysig sy'n dechrau mynd i'r afael ag agweddau allweddol ar fusnes y coleg. Fodd bynnag, nid yw'r grŵp wedi sefydlu llinellau atebolrwydd digon clir ar hyn o bryd ac nid yw'n gweithredu'n ddigon effeithiol fel grŵp corfforaethol bob amser i lywio trefn well ar gyfer gwneud penderfyniadau.

67 Mae gan y coleg gynlluniau datblygedig ar waith i ailstrwythuro ei swyddogaethau rheoli. Bydd angen amser i ymgorffori unrhyw strwythur sefydliadol newydd a chael unrhyw effaith wirioneddol. Er bod disgrifiadau swydd ar waith, nid yw rheolwyr bob amser yn glir ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol ac yn atebol am weithgareddau allweddol fel hyrwyddo a monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth.

68 Mae gan y coleg amserlen briodol ar waith ar gyfer cyfarfodydd i hyrwyddo cyfathrebu ar bob lefel. Mae'r cyfarfodydd yn dechrau cefnogi cyfathrebu mwy effeithiol rhwng rheolwyr a staff a mynd i'r afael â materion pwysig, a gosod targedau priodol ar gyfer gwella. Yn gyffredinol, mae gan y coleg systemau priodol ar gyfer casglu data ar berfformiad dysgwyr, gan gynnwys presenoldeb, cyflawniad a chyrchfannau. Fodd bynnag, ni chaiff y data ei ddefnyddio'n ddigon da i nodi meysydd tanberfformio neu i osod targedau ar gyfer gwella yn y meysydd hynny.

69 Mae gan y coleg bolisïau priodol yn ymwneud â Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 a Chynllun Cydraddoldeb Anabledd ar waith, ond prin yw'r dystiolaeth o fonitro trylwyr o ran rhoi cynlluniau gweithredu cysylltiedig ar waith. Nid yw'r coleg yn gosod targedau heriol i reoli cydraddoldeb ac amrywiaeth.

70 Caiff pob un o'r staff sesiynau goruchwylio rheolaidd gyda'u rheolwyr llinell. Mae'r sesiynau hyn yn ystyried cynnydd cyffredinol yn y gwaith y mae staff yn ymgymryd ag ef ac yn nodi anghenion hyfforddi. Mae'r coleg wedi drafftio system briodol ar gyfer rheoli perfformiad i werthuso pob un o'r staff a'r rheolwyr yn erbyn targedau perfformiad clir, mesuradwy, ond nid yw'r system wedi cael ei rhoi ar waith.

71 Caiff y coleg ei gefnogi'n dda gan gyngor bach o ymddiriedolwyr. Mae'r chwe unigolyn hyn yn adnabod y coleg yn dda ac maent wedi ymrwymo i weledigaethau a gwerthoedd Coleg Elidyr. Yn ddiweddar, maent wedi cyflwyno system o gysylltu ymddiriedolwyr unigol â meysydd swyddogaethol pwysig y coleg. Er enghraifft, mae un ymddiriedolwr sydd â phrofiad penodol mewn rheoli perfformiad yn gweithio'n dda gyda'r pennaeth adnoddau dynol. Mae ymddiriedolwyr yn dod ag ystod o brofiad ac arbenigedd i waith y cyngor. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn cydnabod bod angen cynyddu ei aelodaeth a denu aelodau ag arbenigedd penodol yn ogystal ag ymddiriedolwr sy'n rhiant. Nid oes cynrychiolaeth o blith y dysgwyr ar y cyngor.

72 Mae'r ymddiriedolwyr wedi rhoi cymorth cryf yn enwedig yn ystod y cyfnod o anawsterau yn ddiweddar yn deillio o dynnu arian yn ôl. Rhoddir hyfforddiant I'r ymddiriedolwyr i'w cefnogi yn eu rôl. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cael hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth. Nid yw'r ymddiriedolwyr yn hunanasesu eu perfformiad eu hunain ar hyn o bryd. Mae'r ymddiriedolwyr yn rhoi cymorth ymrwymedig i reolwr y coleg a'r grŵp rheoli ond nid ydynt wedi herio'r coleg digon i ysgogi newidiadau pwysig. Nid yw'r ymddiriedolwyr wedi mynd ati'n ddigon manwl i fonitro'r cynnydd y mae rheolwyr y coleg wedi'i wneud yn mynd i'r afael â'r diffygion o'r ymweliadau arolygu blaenorol. Ni aethpwyd i'r afael yn llawn â gormod o ddiffygion arwyddocaol a nodwyd yn yr ymweliad arolygu diwethaf ac, mewn rhai achosion, yn y tri ymweliad arolygu diwethaf.

**Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?**

| **Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion** |
|---|

73 Yn ei adroddiad hunanarfarnu, dyfarnodd y coleg radd 3 iddo'i hun ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd hon.

74 Mae'r trefniadau ar gyfer arfarnu a gwella ansawdd a safonau yn y coleg yn foddhaol. Y pennaeth sicrhau ansawdd ar gyfer addysg sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd, gyda chefnogaeth Pennaeth Addysg y Coleg.

75 Mae prosesau ansawdd y coleg wedi cael eu datblygu a'u gwella dros sawl blwyddyn i gefnogi'r cynllunio ar gyfer gwella. Mae'r prosesau hyn wedi cael eu cynnal yn ystod cyfnod o newid mawr yn y coleg. Mae cylch sicrhau ansawdd priodol sy'n nodi gweithgareddau sicrhau ansawdd allweddol trwy gydol y flwyddyn yn ddefnyddiol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys arsylwi athrawon yn rheolaidd a hunanarfarnu athrawon a gyflwynwyd yn ddiweddar. Nid yw arsylwadau athrawon yn cynnwys

monitro pa mor dda y mae staff yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Nid yw'r prosesau sicrhau ansawdd yn cael eu dwyn ynghyd mewn fframwaith clir ar hyn o bryd i bob un o'r staff ddeall y cyfraniad y mae'n ofynnol iddynt ei wneud i arfarnu a hyrwyddo gwella ansawdd. Mae hyn yn hollbwysig ar gyfer staff newydd.

76 Yn ddiweddar iawn, mae rhai rheolwyr wedi elwa ar ymweld â cholegau eraill i ystyried enghreifftiau o arfer dda a gwahanol ffyrdd o weithio. Fodd bynnag, nid oes digon o rannu arfer dda a chyfleoedd i staff ystyried eu harfer eu hunain wedi'i mesur yn erbyn arferion darparwyr eraill.

77 Mae'r cylch sicrhau ansawdd yn dechrau ar lefel rhaglen gyda dadansoddiad o ddeilliannau addysgu a dysgu. Ceir rhaglen o arsylwadau gwersi a gweithgareddau hunanarfarnu, yn ogystal â gweithgareddau arolygu ansawdd mewnol. Caiff yr arsylwadau a wneir eu safoni'n briodol. Mae'r deilliannau o'r gweithgareddau hyn yn llywio adroddiad hunanasesu'r coleg. Mae'r grŵp rheoli a'r ymddiriedolwyr yn trafod sicrhau ansawdd yn rheolaidd yn eu cyfarfodydd.

78 Mae rheolwyr meysydd swyddogaethol, er enghraifft, adnoddau dynol a chyllid, yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u cyfraniad at fusnes craidd gofal ac addysg. Fodd bynnag, nid yw hunanasesu meysydd swyddogaethol wedi'i ddatblygu digon ar hyn o bryd ac nid yw'n cyfrannu'n llawn at arfarniad o effaith y meysydd swyddogaethol ar brofiadau dysgwyr a'r safonau a gyflawnir ganddynt.

79 Mae'r coleg yn rhoi ystyriaeth dda i farn dysgwyr. Mae dysgwyr yn mynychu cyfarfodydd fforwm dysgwyr a gynhelir yn rheolaidd. Mae'r rhain yn llwyfan effeithiol ar gyfer nodi materion pwysig ac i gynllunio camau ar gyfer gwella. Ceir rhai enghreifftiau da o'r modd y mae materion a godir gan ddysgwyr wedi arwain at welliannau fel gwelliannau i'r ystâd. Mae dysgwyr yn ymwneud fwyfwy â gwneud penderfyniadau, er enghraifft penodi gweithiwr cymorth yn ddiweddar.

80 Mae adroddiad hunanasesu'r coleg yn fanwl ac yn dilyn fformat y fframwaith arolygu cyffredin yn agos. Mae'n darparu gwybodaeth ac arfarniad defnyddiol, ond mae'n rhy ddisgrifiadol mewn mannau. Ceir cyfatebiaeth resymol rhwng graddau'r hunanasesiad a graddau'r arolygiad allanol.

81 Mae'r coleg wedi dechrau gwneud cynnydd yn ddiweddar yn mynd i'r afael â rhai o'r argymhellion o ymweliadau arolygu blaenorol. Fodd bynnag, mae'r newid wedi bod yn rhy araf ar y cyfan. Mae diffygion yn cynnwys yr angen am reoli perfformiad, eglurder gwell o ran llinellau atebolrwydd ar gyfer rheolwyr a chwrs PHSR i ddiwallu anghenion pob dysgwr.

### Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

82 Yn ei adroddiad hunanarfarnu, dyfarnodd y coleg radd 3 iddo'i hun ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd hon.

83 At ei gilydd, mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio adnoddau yn briodol. Mae'r coleg yn cyflogi digon o staff addysgu a staff cymorth i gyflwyno'i gwricwlwm yn effeithiol. Mae gan bob un o'r staff brofiad addas ac mae nifer gynyddol o athrawon heb gymhwyster addysg wedi cofrestru ar raglen hyfforddi athrawon a gynigir gan Brifysgol Fetropolitan Abertawe. Mae staff sy'n dilyn hyfforddiant athrawon yn frwdfrydig am y rhaglen. Maent yn sôn am y modd y mae'r profiadau hyn wedi eu galluogi i ddisgrifio'r effaith amlwg y mae'n ei chael ar eu datblygiad proffesiynol. Mae gan staff ddisgrifiadau swydd priodol sydd wedi cael eu diwygio'n ddiweddar i adlewyrchu eu rolau a'u cyfrifoldebau yn gliriach.

84 Mae'r rhaglen sefydlu ar gyfer staff newydd yn gynhwysfawr. Mae'r rhaglen yn darparu ystod addas o wybodaeth ar gyfer staff sy'n helpu iddynt ymgynefino â'u rolau yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes mentor ar gael i staff newydd ar hyn o bryd i gefnogi eu datblygiad parhaus.

85 Ceir cyfleoedd da ar gyfer datblygiad staff. Mae staff yn elwa ar hyfforddiant a datblygiad gwerthfawr, er enghraifft mewn rheoli ymddygiad ac awtistiaeth,. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r rheolwyr wedi manteisio ar gyfleoedd i ddilyn hyfforddiant i gefnogi'r modd y mae'r coleg yn mynd ati i hyrwyddo medrau cyfathrebu cyflawn. Mae cynlluniau datblygu staff yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau mewn perthynas â hyfforddiant sy'n orfodol ac anghenion unigol staff hefyd. Mae'r cydlynydd hyfforddi yn cadw cofnodion manwl o ddatblygiad staff ac yn dadansoddi adborth gan staff am ddefnyddioldeb gweithgareddau datblygiad proffesiynol. Ar hyn o bryd, nid yw'r coleg yn mesur effaith datblygiad staff ar addysgu a dysgu a'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr.

86 Mae gwirfoddolwyr gwadd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at waith y coleg, ond nid ydynt bob amser wedi'u paratoi'n ddigon da i fodloni disgwyliadau eu rôl.

87 At ei gilydd, mae adnoddau dysgu yn foddhaol. Gall dysgwyr fanteisio ar ystod briodol o adnoddau, gan gynnwys TGCh well i gefnogi eu dysgu a'u cyflawniad. Mae'r coleg wedi buddsoddi mewn technoleg gwybodaeth yn y llyfrgell yn ddiweddar, ac mae hyn yn galluogi dysgwyr ag anghenion cymhleth i ddefnyddio cyfrifiaduron sydd â sgriniau cyffwrdd a pheledyddion, er enghraifft. Fodd bynnag, mae llyfrau a deunyddiau medrau sylfaenol yn parhau i fod yn annigonol.

88 Mae cynaliadwyedd yn flaenoriaeth allweddol i'r coleg. Mae staff ar bob lefel wedi ymrwymo i hyrwyddo cynaliadwyedd wrth iddynt reoli a defnyddio adnoddau. Mae rheolwyr wedi dechrau defnyddio arweiniad gan gyrff allanol i ystyried gwelliannau mewn defnyddio ynni.

89 Mae adeiladau o safon addas sy'n gyfforddus ac yn groesawgar ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr i gefnogi eu dysgu a'u datblygiad. Mae'r coleg wedi dechrau ystyried strategaeth briodol i gefnogi cynlluniau ar gyfer gwella'r ystâd. Gwnaed gwelliannau pwysig yn ddiweddar i wyneb rhan o ffordd y brif fynedfa trwy'r safle. Cynhaliwyd Archwiliad Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (DGSA) rai blynyddoedd yn ôl ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd i ddiweddaru cynlluniau, nodi blaenoriaethau ac ystyried deddfwriaeth ddiweddar. Yn gyffredinol, mae campws y coleg yn darparu amgylchedd i ddysgwyr sy'n helpu iddynt ddatblygu medrau annibynnol, personol a dysgu priodol. Mae dysgwyr yn dangos parch sylweddol at yr amgylchedd dysgu.

90 Mae’r coleg yn dilyn ystod o fesurau i leihau cost adnoddau a sicrhau gwerth am arian. Mae’r coleg wedi datganoli cyllidebau i feysydd allweddol yn ddiweddar ac wedi annog deiliaid cyllideb i gymryd cyfrifoldeb am reoli’r cyllidebau a ddyrennir iddynt.

91 At ei gilydd, mae’r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr yn dda. Mae’r coleg yn darparu gwerth boddhaol am arian.

## Ymateb y darparwr i ganfyddiadau'r adroddiad

Mae Coleg Elidyr wedi croesawu'r cyfle i fesur ei berfformiad mewn arolygiad llawn. Rydym yn ddiolchgar i Estyn ac Ofsted am gynnal yr arolygiad mewn modd sensitif a chwrtais, yn enwedig y ffordd yr ymgysylltodd arolygwyr â'n dysgwyr, gan fynd ati'n gyflym i ffurfio perthynas barchus gyda nhw.

Mae'n hynod galonogol gweld y gydnabyddiaeth a roddir i gynnydd dysgwyr a gwaith y Fforwm Dysgwyr. Mae'r rhain yn sylfeini cadarn yr ydym yn bwriadu parhau i adeiladu arnynt. Mae hefyd yn foddhaus gweld bod y mesurau a gyflwynwyd ar gyfer cyflwyno'r addysgu (e.e. templedi cyffredin ar gyfer cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi, hyfforddiant cychwynnol i athrawon) eisoes yn cael rhywfaint o effaith. Rydym wedi cael ein hannog hefyd i barhau â Chyfathrebu Cyflawn (Total Communication) a'i ddatblygu ar draws y coleg, sydd wedi bod yn fuddiol.

I raddau helaeth, mae argymhellion yr adroddiad yn ymdrin â materion y mae'r coleg wedi'u cydnabod yn ei adroddiad hunanasesu, ac eir i'r afael â rhai ohonynt eisoes yng nghynllun Trawsnewid y Coleg Cyfan ar gyfer gwella ansawdd. Bydd y coleg yn ymgorffori gweithredoedd parhaus perthnasol a'i ymatebion i'r diffygion a nodwyd yn yr arolygiad mewn cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru.

Er bod y coleg yn falch fod ei adroddiad hunanasesu ei hun yn cyfateb yn rhesymol â chanfyddiadau'r arolygiad, rydym hefyd yn cydnabod manteision cynnal hunanasesiad o feysydd swyddogaethol. Hefyd, bydd y ffaith fod y meysydd i'w datblygu a nodwyd yn glir i ni yn yr adroddiad arolygu yn rhoi ffocws ar gyfer gwella a datblygu parhaus.

## Atodiad 1

**Sail dystiolaeth yr arolygiad**

Treuliodd pedwar arolygydd gyfanswm o un ar ddeg diwrnod arolygu yn y coleg ac fe wnaethant gyfarfod fel tîm cyn yr arolygiad. Ymwelodd yr arolygwyr ag:

- wyth sesiwn neu rannau o sesiynau yn y coleg.

Cafodd aelodau o'r tîm gyfarfodydd neu drafodaethau gyda'r canlynol:

- cyngor yr ymddiriedolwyr;
- rheolwr y coleg;
- y pennaeth addysg;
- y pennaeth sicrhau ansawdd;
- y pennaeth gofal;
- athrawon a staff preswyl; a
- dysgwyr.

Fe wnaeth y tîm hefyd ystyried:

- dogfennau a ddarparwyd gan y coleg gan gynnwys adroddiad hunanarfarnu'r coleg;
- gwaith fforwm y dysgwyr;
- yr adroddiadau arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru;
- detholiad o waith dysgwyr; ac
- ymddygiad dysgwyr o amgylch y coleg amser cinio ac yn ystod y dydd.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Claire Yardley AEM Estyn | Arolygydd Cofnodol |
| Susan Preece AEM Ofsted | Arolygydd Tîm |
| Janice Thomas AEM Estyn | Arolygydd Tîm |
| Mike Farrell AY Estyn | Arolygydd Tîm |
| Eirlys Gravelle Pennaeth Sicrhau Ansawdd | Enwebai'r darparwr |